**OFFERYN CADARNHAU**

Mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru (“CNC”) wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru gadarnhau Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn Afon Gwy (Eogiaid a Brithyllod y Môr) (Cymru) 2021, a wnaed gan CNC ar 15 Gorffennaf 2021.

Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu cadarnhau’r Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn Afon Gwy (Eogiaid a Brithyllod y Môr) (Cymru) 2021.

Wrth arfer y pwerau a roddir gan baragraff 2 o Atodlen 26 i Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 ac a ymddiriedir ynddynt bellach, mae Gweinidogion Cymru'n cadarnhau Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn Afon Gwy (Eogiaid a Brithyllod y Môr) (Cymru) 2021.

Daw'r is-ddeddfau hyn I rym ar 1 Mawrth 2022.



Lesley Griffiths

Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd,

un o Weinidogion Cymru

4 Chwefror 2022